



Byw gyda Natur

Ymchwil Ysbrydol Randolph a'i Chwiliad am Ystyr

Ymchwil Ysbrydol Randolph a'i
Chwiliad am Ystyr

Byw gyda Natur

Tania ap Siôn

Darluniwyd Phillip Vernon



Bear Lands Publishing

Cyhoeddwyd gan Bear Lands Publishing
Canolfan y Santes Fair
Llys Onnen
Abergwyngregyn
Gwynedd
LL33 0LD
Cymru (UK)

Nodir Tania ap Siôn a Phillip Vernon fel awduron
y gwaith hwn.
Cyfieithwyd gan Nant Roberts.

©Hawlfraint y Goron 2019.

Cyhoeddwyd gyntaf 2019.

Noddir gan Lywodraeth Cymru.

CYNNWYS

Teithiau Randalph Ddoeth	7
1 Rhan y Llew	8
2 I'r Coetir	10
3 Ar hyd Llwybr Arfordir Cymru	14
4 O'r Ddôl i'r Gors	18
5 Y Berllan	22
6 Mynwent Gristnogol	26
7 Gardd Sikhaidd	30
Allwch chi helpu Randalph?	34
Randalph Ddoeth yn mynd yn ei ôl adref	36





Teithiau Randolph Ddoeth

Eisteddodd Randolph Ddoeth yn ei gadair, gan grafu ei ben llwyd henaidd, a meddwl am y cwestiwn mawr iawn.

“Beth sydd *wir* yn bwysig?” gofynnodd i’r ystafell wag mewn llais dwfn, trwm. Fel arfer, doedd dim lleisiau eraill i’w ateb.


Roedd y cwestiwn, ‘beth sydd *wir* yn bwysig’ wedi achosi i Randolph Ddoeth bendroni llawer. Roedd wedi treulio llawer o ddyddiau’n meddwl am y peth, ond roedd yn gwybod na fyddai’n dod o hyd i atebion drwy aros yn ei ystafell.

“Fe af i allan i’r byd!” dywedodd Randolph Ddoeth. “Fe fydda i’n dod o hyd i atebion yno ac yn dod â nhw’n ôl yma.”

Gwisgodd Randolph Ddoeth ei gôt a’i het, cododd ei fag, a gafael yn ei ffon. Yna, gan droi ei wyneb tuag at yr haul yn codi, fe gychwynnodd ar ei daith trwy Gymru.

Dyna’r ffordd y dechreuodd Randolph Ddoeth ei ymchwil ysbrydol a’i chwiliad am ystyr.

1 Rhan y Llew



Roedd Randolph Ddoeth yn sefyll wrth ymyl trac rheilffordd y tu ôl i ffens amddiffynnol. Fe fyddai gorsaf drenau wedi bod yma unwaith, mewn oes wahanol. Nawr, wrth i Randolph glywed sŵn trên yn dod yn nes, gwylodd wrth iddo fynd heibio ar wib. Ble roedd y bobl hyn yn mynd ar draws y dŵr, ac o ble y daethon nhw?


Aeth Randolph ymlaen tuag at Afon Menai a oedd yn llifo'n gyflym. Eisoes, roedd yn ymwybodol o'r gwymon a'r dŵr hallt. Ar ôl cerdded ychydig, fe welodd lwybr bychan yn troi am i fyny. Yn chwilfrydig, dilynodd Randolph y llwybr. Cyn hir cyrhaeddodd ben y llethr. Yma, synnodd wrth weld bod llew carreg enfawr yn eistedd yno'n edrych yn wylidwrus, ond wedi ei anghofio yng nghanol tyfiant trwchus. Rhuodd y drafnidiaeth yn fecanyddol wrth wibio dros y bont uwchben.

“Rhaid bod llew mor wych yn nodi porth,” ysgrifennodd Randolph yn ei lyfr nodiadau.

Aeth Randolph yn ei ôl at y prif lwybr er mwyn cael gwybod mwy am y lle rhyfedd hwn. Yn fuan, cyrhaeddodd strwythur haearn gyr hirsgwar mawr. Yn sefyll yn berpendicwlar, roedd yn cyrraedd yn uwch na phen Randolph. Yn uwch wedyn, roedd gwifrau o beilon mawr yn cael eu cario ar draws y dŵr. O gwmpas, roedd y coed a'r llwyni yn ymwithio'n agos at ei gilydd.

Wrth i Randolph ddarllen yr arwyddion, roedd rhannau o stori'n datblygu. Yma, un tro, roedd pont llawer hŷn wedi croesi'r Fennai. Roedd y gamp beirianyddol hynod honno'n cario'r rheilffordd o'r tir mawr i Ynys Môn. Yna, un noson ym mis Mai 1970, cydiodd tân mawr ym mhren a thar y bont. Gyda gwyntoedd cryf yn bwydo'r fflamau, llosgwyd y bont yn sydyn. Nawr, roedd Randolph yn sefyll o flaen darn o'r bont hanesyddol honno.

Yn fuan, roedd yn deall arwyddocâd y llew cudd. Beth oedd y llew hwnnw wedi'i weld dros y blynyddoedd yn y lle hwn, lle'r oedd pobl a natur yn byw ochr yn ochr â'i gilydd?



2 I'r Coetir



Aeth Randolph ymlaen ar hyd y llwybr nes ei fod yn sefyll yn union o dan fwa trawiadol y bont. Roedd pentan y bont wedi'i seilio'n gadarn yng nghanol y drysni. Edrychodd Randolph yn ofalus dros ymyl dibyn serth i weld dyfroedd y Fenai ychydig bellter islaw. Ar lanw isel, roedd y dyfroedd yn ymddangos yn ddigon diniwed.

Yna, gan droi ei olwg yn ôl tuag at y llwybr, gallai Randolph weld llwybr pren troellog a oedd yn arwain i'r coetir y tu hwnt. Gan afael yn ei ffon yn dynnach, aeth Randolph yn ei flaen tuag at Erddi Botaneg Treborth. Daeth sain adar yn galw ar ei gilydd yn gryfach gyda phob cam. Sut y gall cynifer o adar fod mor guddiedig, meddylodd Randolph wrth iddo chwilio drwy'r coed.

Yn fuan wedyn, clywodd Randolph sŵn arall. Y tro hwn, sŵn brigau'n torri a sŵn traed rhywun yn rhedeg yn gyflym y tu ôl iddo. Gan droi, gwelodd redwr yn dod tuag ato, ac yn ei basio'n sydyn. Ychydig ymhellach y tu ôl iddo, roedd dyn yn mynd â'i gi am dro ar dennyn hir yr oedd yn bosib ei dynnu'n ôl. Roedd y ci yn oedi, yn ffroeni ac yn gwthio ei drwyn i'r ddaear yn gynhyrfus. Edrychodd Randolph yn fwy manwl ar lawr y coetir i weld beth allai fod o'r fath ddi-ddordeb. Roedd yno lawer o leoedd i bethau diddorol guddio ynddyn nhw. Roedd yno fwsoglau, cennau a ffyngau hefyd.

Ychydig ymhellach ymlaen, sylwodd Randolph ar ddyn a dynes yn eistedd ar fainc bren. Roedden nhw'n eistedd yn llonydd ac yn dawel, gan edrych i fyny ar y coed. Wrth reddf, arhosodd Randolph ar unwaith ac arsylwi'n dawel. Roedd rhywbeth yn symud yn gyflym iawn ac yn swnllyd trwy ganopi trwchus y canghennau.





Yn sydyn, arhosodd y peth am eiliad, hanner ffordd i fyny boncyff un goeden uchel. Gyda'i ffwr llwytgoch a'i chynffon drwchus, gwelodd Randalph mai gwiwer goch brin oedd hon.

Pan lamodd y wiwer o'r golwg, symudodd Randalph ymlaen ymhellach ar hyd y llwybr. Yn fuan, sylwodd ar bentwr anarferol o ganghennau coed ar y naill ochr a'r llall. Roedd y rhain yn wahanol i'r pentwr o logiau a welodd yn gynharach wedi'u pentyrru'n daclus. Roedd y rhain yn frigau hir teneuach wedi'u gosod yn fertigol yn erbyn y coed i wneud cysgodfeydd bach. Meddylodd Randalph am y cysgodfeydd hyn a phwy allai fod wedi eu gwneud.

Pan welodd Randalph fod y rhedwr a'r dyn oedd yn mynd â'i gi am dro wedi aros o'i flaen, fe aeth atyn nhw. "Beth sydd wir yn bwysig i chi yma?" gofynnodd Randalph iddyn nhw.

Y rhedwr atebodd gwestiwn Randolph yn gyntaf, gan ddweud, “Rydw i’n hoffi rhedeg naill ai yn y bore neu gyda’r nos. Weithiau, rydw i’n rhedeg ar y strydoedd yn ymyl lle rydw i’n byw. Ond, os oes gen i fwy o amser, mae’n well gen i redeg yn y coetir neu wrth y môr. Mae rhywbeth arbennig am redeg yn y byd naturiol. Mae’n gwneud mwy na dim ond fy nghadw i’n ffit yn gorfforol. Rydw i wrth fy modd yn rhedeg yma.”

Chwarddodd y dyn oedd yn mynd â’i gi am dro, a dywedodd, “Ac mae fy nghi i wrth ei fodd yma hefyd. Mae’n cyffroi wrth archwilio’r holl arogleuon a’r golygfeydd naturiol. Mae angen llefydd fel hyn ar gŵn, ac ar bobl hefyd yn fy marn i.”

Yna, rhoddodd y ci ddarn o gangen soeglyd i Randolph. “Dyma beth sydd wir yn bwysig i mi yma. Ewch â’r anrheg hon yn ôl gyda chi,” dywedodd y dyn gyda gwên. Wrth roi’r anrheg yn ei fag, dywedodd Randolph ffarwel a mynd yn ei flaen â’i chwiliad.



3 Ar hyd Llwybr Arfordir Cymru



Ar y llwybr o'i flaen, gwelodd Randolph grŵp bach o gerddwyr yn darllen arwydd lliwgar a oedd yn llawn gwybodaeth. Roedden nhw hefyd yn edrych yn ofalus ar fap, ac yn pwyntio i gyfeiriad Randolph.

Oeddodd Randolph i weld beth fydden nhw'n ei wneud nesaf. Fe wylodd y grŵp yn brasgamu'n bwrpasol tuag at goeden enfawr, ac yn aros yno. Gan edrych eto ar y map ac yna i fyny ar y goeden, dywedodd un o'r cerddwyr, "Dyma hi – Derwen Lucombe. Mae'n rhaid ei bod bron yn 200 mlwydd oed, ac yn ôl pob tebyg wedi ei phlannu gan Syr Joseph Paxton."

Syllodd pawb ar y goeden nodedig yn dawel. Roedd yn dderwen braff iawn. Torrwyd ar y tawelwch pan blygodd un cerddwr i lawr a chodi rhywbeth oddi ar y ddaear. "Edrychwch! Rydw i wedi dod o hyd i fesen," dywedodd, a'i rhoi yn ei phoced yn ofalus.

Dilynodd Randolph y cerddwyr wrth iddyn nhw fynd ymlaen ar hyd y llwybr. Ar ôl cerdded ychydig ymhellach, a sgwrsio am y lle gorau i gael cinio, arhosodd y cerddwyr eto wrth arwydd pren, a oedd yn nodi, "Rhaeadr Paxton".

Yn rhywle y tu hwnt i'r arwydd, roedd yn bosib clywed sŵn dŵr yn llifo'n gyflym. Aeth y cerddwyr ymlaen i weld yn well. Yno, yn dod drwy hen dwnnel brics, roedd dŵr yn rhaeadru dros ymyl banc serth i lawr i'r Fenai.

Meddyliodd Randolph am y rhaeadr, a gynlluniwyd yn fedrus, a pham ei fod yma yn y coetir naturiol hwn.





Wrth wrando ar y cerddwyr, dealodd Randalph fod rhywbeth arall wedi'i gynllunio yma ryw dro, lawer o flynyddoedd yn ôl. Clywodd mai Cwmni Rheilffordd Caer a Chaerybi oedd yn berchen ar y tir yn y 1840au. Roedden nhw wedi gweithio i greu gardd bleser, ac roedd pensaer a garddwr talentog o'r enw Syr Joseph Paxton yn rhan o hyn. Yna, clywodd Randalph fod gwesty moethus wedi'i gynllunio hefyd ar gyfer y lle, ond roedden nhw'n brin o arian. Erbyn hyn, dim ond ychydig o arwyddion o'r fenter uchelgeisiol hon sy'n dal yma.

“Fe fyddai'r lle hwn yn wahanol iawn nawr, pe bai'r prosiect adeiladu wedi bod yn llwyddiannus,” dywedodd un cerddwr, yn feddylgar. “Beth fyddwn ni'n ei weld nesaf ar ein taith ar hyd Llwybr Arfordir Cymru?”

Pan wnaethon nhw droi i fynd ymlaen ar eu taith gerdded, aeth Randalph atyn nhw. “Beth sydd wir yn bwysig i chi yma?” gofynnodd Randalph iddyn nhw.

Dyweddod un o'r cerddwyr, "Rydyn ni'n dod i Gymru bob blwyddyn am wyliau. Rydwn ni wedi cerdded rhan gyfan Ynys Môn o Lwybr Arfordir Cymru. Heddiw, rydwn ni'n cerdded o Borthaethwy i Gaernarfon. Rydw i wir yn mwynhau cerdded drwy'r dirwedd hardd hon a darganfod rhywbeth am y bobl a'r lleoedd ar hyd y ffordd."

Dyweddod cerddwr arall, "Rydw i'n gweld Cymru'n llai prysur na rhai lleoedd gwyliau poblogaidd eraill. Mae llawer o bethau heb eu difetha yma. Mae hyn yn bwysig i mi, a dyma'r rheswm pam fy mod i'n dal i ddod yn ôl."

Yna, fe wnaethon nhw roi map o Lwybr Arfordir Cymru i Randolph. "Dyma beth sydd wir yn bwysig i ni yma. Ewch yr anrheg hon yn ôl gyda chi," dywedodd pawb gyda gwên. Wrth roi'r anrheg yn ei fag, dywedodd Randolph ffarwel a mynd yn ei flaen â'i chwiliad.



4 O'r Ddôl i'r Gors



Yn ôl ar brif lwybr y coetir, sylwodd Randolph ar drac bychan yn ymadael tua'r chwith drwy'r coed. Ym mhen draw'r trac, synnodd wrth ganfod tirwedd wahanol iawn. Yno, yn ymledu o'i flaen, roedd tir agored eang o ddôl blodau gwywedig. Roedd cynhesrwydd a golau'r haul yn gallu cyrraedd yma'n rhwydd at y gweiriau tal a oedd yn siglo yn yr awel. Roedd Randolph yn teimlo'r gwrthgyferbyniad amlwg rhwng yr olygfa ddisglair hon a'r coetir cysgodol llaith y tu ôl iddo.

Wrth weld llwybr clir wedi'i dorri'n daclus yn arwain drwy'r glaswelltir, gadawodd Randolph gysgod y coed. Yn fuan wedyn sylwodd Randolph ar ddyn yn eistedd ar fainc yn siarad ag ymwelydd arall. Roedd y dyn yn dweud, "Rydw i'n dod i'r ardd yn rheolaidd. Mae'r ddôl hon wedi'i thorri'n ddiweddar. Mae angen rheolaeth dda ar ddôl iach. Mae llawer mwy yn digwydd yma na dim ond cae o laswellt."

Gwrandawodd Randolph ar y dyn wrth iddo siarad am y ddôl. Soniodd y dyn am y blodau gwyllt, y pryfed a'r anifeiliaid sy'n byw yma. Dywedodd fod dolydd blodau gwyllt wedi bod yn diflannu'n raddol ers y 1930au. Roedd y tir wedi bod yn cael ei ddefnyddio ar gyfer adeiladu eiddo ac ar gyfer gwahanol fathau o ffermio. Erbyn hyn, ychydig iawn o ddolydd blodau gwyllt sydd ar ôl. "Felly, mae hwn yn lle arbennig," daeth y dyn i gasgliad.

Yna, pwyntiodd y dyn at ardal ar ochr bellaf y ddôl, gan ddweud, "Cyn i chi fynd oddi yma, mae'n werth i chi ymweld â man arall sy'n wahanol iawn. Y tu hwnt i'r planhigion bambŵ, fe welwch chi ardd gors." Soniodd y dyn am sut y gwelodd yr ardd gors ar un diwrnod oer yn y gaeaf. "Fel y ddôl," dywedodd, "mae llawer mwy yn digwydd yno dim ond darn o dir corsiog."





Disgrifiodd y dyn sut yr oedd wedi cerdded dros nant fach, ac yna drwy rai planhigion bambŵ tal, ac wedi gweld coeden redyn enfawr yn sefyll ym mhen y gors. Roedd rhedyn eraill yn tyfu'n gryf o gwmpas. "Mae rhedyn yn blanhigion hynafol, ac maen nhw'n gallu dweud llawer wrthy ch chi am yr hyn sy'n digwydd mewn lle," dywedodd y dyn.

Yna, soniodd y dyn am hanes y goeden redyn enfawr. "Nid rhedynen leol yw hon," dywedodd. "Mae'n dod o Seland Newydd yn wreiddiol. Mae ei dail yn symbol pwysig gan bobl y Maori. Fe welwch chi lun dail rhedyn ar lawer o bethau yn Seland Newydd."


Cofiodd Randolph am y rhedyn a welodd wrth iddo gerdded drwy'r coetir. Meddyliodd am bwysigrwydd planhigion yn dod yn symbolau i bobl ledled y byd. Wedi i'r dyn orffen siarad, trodd Randolph ato. "Beth sydd wir yn bwysig i chi yma?" gofynnodd Randolph iddo.

Meddyliodd y dyn am ychydig cyn ateb cwestiwn Randolph. “Rydw i’n dod yma am fy mod i’n hoffi’r amrywiaeth. Mewn un ardd fach, fe allwch chi weld cymaint o wahanol fathau o dir. Mae yma ddolydd, y gors, a’r coetir. Mae cymaint yn digwydd ym mhob un o’r lleoedd hyn. Mae’n cael gofal a’i reoli’n dda. Mae rhywfaint o ymchwil wyddonol bwysig yn digwydd yma.”

Yna, rhoddodd y dyn ffrond rhedynen fawr i Randolph. “Dyma beth sydd wir yn bwysig i mi yma. Ewch â’r anrheg hon yn ôl gyda chi,” dywedodd gyda gwên. Wrth roi’r anrheg yn ei fag, dywedodd Randolph ffarwel a mynd yn ei flaen â’i chwiliad.



5 Y Berllan




Wedi i Randolph orffen cerdded o gwmpas y dolydd, fe gerddodd ar hyd ymyl y coetir. O dro i dro, fe fyddai'n aros i gofnodi rhywbeth o ddiddordeb yn ei lyfr nodiadau. Tra roedd yn ymgolli wrth wyllo gloynnod byw mewn border blodau a gynlluniwyd yn ofalus, clywodd sgwrs gerllaw.


“Edrychwch ar y coed afalau yma,” dywedodd llais. “Maen nhw i gyd yn Gymreig ac yn brin. Rydw i wedi clywed am Afal Enlli, ond dydw i ddim yn adnabod unrhyw un o'r lleill. Ydych chi wedi clywed am Afal Santes Cecilia neu Afal Trwyn Mochyn o Fôn neu Afal Melys Morgan?”

Trodd Randolph at berchennog y llais a gweld dwy ddynes yn sefyll wrth berllan fach o goed ifanc. Nodiodd ffrind y ddynes ac atebodd, “Mae pob un o'r coed afalau yma'n arbennig gyda'i stori ei hun a'i lle ei hun yng Nghymru.”

Stopiodd Randolph yr hyn yr oedd yn ei wneud, a gwrandawodd ar ffrind y ddynes yn sôn am y coed afalau anarferol.

Clywodd Randolph sut y cafodd y goeden Afal Enlli hynafol ei chanfod yn tyfu ger adfeilion yr abaty o'r 13eg ganrif ar Ynys Enlli. Yr un goeden honno yw'r cyfan sydd ar ôl o berllan y mynachod. Dywedir bod y goeden a'i hafalau'n rhydd o afiechydion. Clywodd sut yr oedd Afal Melys Morgan wedi bod yn hoff afal gan lowyr ym mhyllau glo De Cymru yn y 18fed ganrif. Clywodd sut yr oedd Afal Santes Cecilia wedi cael ei dyfu'n gyntaf yn Sir Fynwy a bod ei flas ar ei orau ar Ddiwrnod Santes Cecilia. Yna, clywodd sut yr oedd yr Afal Trwyn Mochyn wedi bod yn boblogaidd gyda gweithwyr fferm ym Môn yn yr 17eg ganrif, ac mae ei enw'n disgrifio ei siâp.





Dyweddodd ffrind y ddynes wedyn, “A dim ond ychydig yw’r rhain o’r afalau prin a hen sy’n dod o Gymru. Dydyn nhw dim i’w cael mewn llawer o siopau.” Edrychodd Randolph yn fwy manwl ar y coed afalau a meddylodd am yr holl fathau eraill o afalau oedd i’w cael yng Nghymru a beth oedd yn eu gwneud yn arbennig.

Pan oedd y ddwy ddynes ar fin symud ymlaen, aeth Randolph atyn nhw. “Beth sydd yn wir bwysig i chi yma?” gofynnodd Randolph iddyn nhw.

Dywedodd un ddynes, “Fe allai'r hen afalau Cymreig ddiplannu'n rhwydd. Erbyn hyn, dim ond ychydig fathau o afalau sy'n cael eu gwerthu, ac mae'r rhain wedi'u masgynhyrchu. Doedd pethau ddim fel hyn bob amser. Fe fyddai colli'r afalau lleol hyn fel colli rhan ohonom ni ein hunain.”


Dywedodd ffrind y ddynes wedyn, “Mae afalau'n dweud llawer am fyw gyda natur. Yn aml, nid yw coed afalau'n cael eu tyfu o hadau. Yn hytrach, rydych chi'n impio brigyn o'r goeden rydych chi ei heisiau i wreiddgyff coeden arall. Mae tyfu coed iach ac afalau blasus yn sgil go iawn.”

Yna, fe wnaethon nhw roi afal o farchnad ffermwyr lleol i Randalph. “Dyma beth sydd wir yn bwysig i ni yma. Ewch â'r anrheg hon yn ôl gyda chi,” dywedodd y ddwy gyda gwên. Wrth roi'r anrhegion yn ei fag, dywedodd Randalph ffarwel.

Crychodd Randalph ei dalcen a meddwl. Fe allai weld bod byw gyda natur yn wir bwysig. Roedd yn gwybod bod hyn yn rhan o'i ymchwil ysbrydol a'i chwiliad am ystyr. “Ond beth mae pobl eraill mewn lleoedd gwahanol yn ei ddweud am hyn?” gofynnodd Randalph.



6 Mynwent Gristnogol



Teithiodd Randolph i'r gogledd ac yna i'r de, i'r dwyrain ac yna i'r gorllewin. Arweiniodd ei chwiliad ef heibio mynyddoedd a dyffrynnoedd, trwy ddinasoedd a threfi, o amgylch arfordiroedd a llynnoedd. Yna, pan gyrhaeddodd fynwent, fe arhosodd. Yr ochr arall i wal y fynwent, roedd gwenyn yn suo ac yn hedfan ymhlith y blodau gwyllt. Cerddodd Randolph trwy fwa porth y fynwent i gael golwg fwy manwl.

Gwyrodd Randolph ymlaen er mwyn gallu aroglï'r blodau llygad y dydd a glas yr yd. Rhedodd ei fysedd drwy'r gwair tal. Gwyliodd robin, yn gwibio o le i le. Yn sydyn, safodd Randolph yn llonydd. A oedd rhywun yn penlinio wrth y bedd acw?

Wrth i Randolph symud yn nes, gallai weld rhywun ar ei chwrcwd yno, a meddyliodd, "Tybed beth fyddai Cristion yn gallu ei ddweud wrthyf am fyw gyda natur?"

Gan wyllo'n ofalus, gwelodd Randolph fod gwraig yn tynnu glaswellt yn ôl oddi ar wyneb carreg fedd. Yn awr, roedd arysgrif y garreg yn weladwy. Roedd y geiriau wedi'u hysgythru ochr yn ochr â llun coeden a oedd yn bargodi, a'r geiriau'n nodi,

“Eto bob amser gorweddwn,
Ymhlith blodau, wyneb yn wyneb â'r awyr.”

Unwaith eto, sylwodd Randolph ar yr holl flodau gwyllt o wahanol liwiau o'i gwmpas. Roedd yno rai gwyn a melyn, pinc a glas, lliwiau hufen a phorffor. Meddyliodd Randolph am y garreg hon wedi ei hamgylchynu gan flodau, ac am y storïau a oedd y tu ôl iddyn nhw.

Pan oedd y wraig wedi gorffen, casglodd y toriadau glaswellt ynghyd a'u rhoi mewn bin compost. Yna, cerddodd Randolph tuag ati a gofynnodd, “Beth fyddai'n bosib i Gristion ei ddweud am fyw gyda natur?”





Symudodd y wraig at fainc heb fod ymhell o'r bedd, a dywedodd, "Pan oedd Iesu'n addysgu'r bobl, roedd yn aml yn cyfeirio at bethau a oedd i'w cael ym myd natur. Mae hyn yn ein helpu ni i ddeall rhai gwirioneddau pwysig am fywyd. Rydw i wir yn hoffi'r stori am yr adar a'r blodau."

Gwylodd Randolph a'r wraig robin yn gwibio heibio iddyn nhw ac yn glanio gerllaw. Dywedodd y wraig, "Roedd Iesu'n annog ei ddisgyblion i feddwl am y byd naturiol y mae Duw wedi'i greu. Mae'n brydferth ac yn gymhleth. Mae popeth sydd ei angen yma. Edrychwch ar yr adar. Dydyn nhw ddim yn adeiladu siopau nac ysguboriau, ac eto mae Duw'n eu bwydo. Edrychwch ar y blodau. Dydyn nhw ddim yn llafurio nac yn nyddu, ac eto mae Duw'n eu gwisgo. Dydi hyd yn oed y brenin sydd wedi'i wisgo'n fwyaf godidog ddim harddach na blodyn. Mae ein holl bryder am ein hanghenion materol yn gwneud i ni anghofio am yr hyn sy'n bwysig. Onid yw bywyd yn bwysicach na bwyd, a'r corff yn bwysicach na dillad?"

“Felly, fe welwch chi,” dywedodd y wraig wedyn, “mae byw gyda natur yn bwysig i Gristnogion hefyd. Mae’r byd naturiol yn addysgu rhai pethau sylfaenol i ni amdanom ni ein hunain. Mae’n ein herio ni i ofyn cwestiynau ynghylch pwy ydyn ni a sut rydyn ni’n byw ein bywyd. Pan fyddwn ni’n dod wyneb yn wyneb â rhan o’r byd naturiol, mae yna bob amser wersi caled i’w dysgu. Rydw i’n mwynhau ymweld â’r fynwent hon. Yma, rydyn ni’n cymryd gofal arbennig er mwyn gwneud y fan hon yn lle i fywyd gwyllt hefyd.”

Yna, rhoddodd y wraig lasbren bach coeden griafol o’r fynwent i Randolph. “Ewch â hwn yn ôl gyda chi,” dywedodd gyda gwên. Wrth roi’r anrheg yn ei fag, dywedodd Randolph ffarwel a mynd ymlaen ar ei daith.



7 Gardd Sikhaidd



Teithiodd Randolph ymlaen ac ymlaen, gan wynebu'r haul a'r glaw, yna'r stormydd a'r eira. Wnaeth Randolph ddim aros nes iddo gyrraedd rhes o erddi rhandiroedd ar gwr tref fawr.

Yno, cerddodd heibio pob gardd randir yn ei thro, gan edrych dros y giatiau. Roedd Randolph yn chwilfrydig wrth weld cymaint o erddi gyda'i gilydd, ochr yn ochr. Roedd llyisiau a ffrwythau'n tyfu yn y rhan fwyaf o'r gerddi. Roedd perlyisiau a blodau mewn rhai gerddi hefyd. Roedd un wedi gordyfu cymaint fel nad oedd yn edrych fel gardd o gwbl. Yna, yn un o'r gerddi, gwelodd Randolph wraig yn gwisgo breichled kara Sikhaidd. Roedd hi'n helpu ei hŵyr i blannu bylbiau blodau.

Wrth i Randolph gerdded tuag at y wraig a'r bachgen, dywedodd wrtho'i hun, "Tybed beth fyddai Sikh yn gallu ei ddweud wrthyf am fyw gyda natur?"

Gwylodd Randolph y wraig a'r bachgen wrth iddyn nhw weithio gyda'i gilydd a siarad. "Pan fydd y bylbiau hyn yn egino ac yn blodeuo yn ystod y gwanwyn, fe fydd yr ardd hon yn dod fel Llys Guru Har Rai Ji!" dywedodd y wraig. Gan chwerthin, gorchuddiodd y bachgen y bylbiau'n ysgafn â phridd, a'u dyfrio.

Pan oedden nhw wedi gorffen plannu'r bylbiau, fe aethon nhw i weld y pwmpenni a'r gwelyau tatws. Wedi llenwi un sach â thatws a sach arall â phwmpenni, fe wnaethon nhw eu llwytho ar ferfa. "Fe awn ni â rhai adref i'w bwyta heno, ac fe wnawn ni roi'r gweddill i'r gegin yn ein gurdwara," dywedodd y wraig. "Mae'n dda ein bod ni'n gallu rhannu'r bwyd ffres yma gyda phobl eraill."

Pan arhosodd y wraig a'r bachgen am hoe, aeth Randolph atyn nhw a gofyn y cwestiwn, "Beth fyddai'n bosib i Sikh ei ddweud am fyw gyda natur?"





Sychodd y wraig y pridd oddi ar ei dwylo, a dywedodd, “Mae’r ddaear gyfan yn sanctaidd i mi fel Sikh. Fe ddaw popeth oddi wrth Dduw, ac mae’n bosib dod o hyd i Dduw ym mhopeth. Felly, rydw i’n ceisio parchu a bod â thrugaredd tuag at bopeth ym myd natur, yn ogystal â thuag at bobl eraill.”

Yna, soniodd y wraig wrth Randolph am y seithfed Guru Har Rai, a oedd â chariad mawr tuag at fyd natur. Pan oedd Har Rai yn blentyn, cyrhaeddodd adref o daith ar gefn ceffyl a gweld ei daid, Guru Hargobind, yn myfyrio mewn gardd flodau. Yn llawn cyffro, rhedodd Har Rai i gyfarch ei daid. Ond, wrth iddo frysio, fe sathrodd ar flodyn a’i ddifrodi. Roedd Har Rai yn teimlo’n ddrwg iawn am y difrod a achosodd. Felly, o’r diwrnod hwnnw ymlaen, roedd yn cymryd mwy o ofal o’i weithredoedd. Daeth Har Rai yn adnabyddus am ei erddi hardd lle’r oedd planhigion, anifeiliaid a phobl yn byw’n dda gyda’i gilydd fel rhan o un gymuned.

“Felly, fe welwch chi,” dywedodd y wraig wedyn, “mae byw gyda natur yn bwysig i mi fel Sikh hefyd. Mae hyn yn golygu ceisio byw mewn cytgord â natur a gwasanaethu eraill. Dydi hyn i gyd ddim yn hawdd. Mae hyd yn oed yn anoddach y dyddiau hyn am fod bywyd cymaint o bobl wedi dieithrio oddi wrth natur nes eu bod yn anghofio amdano.”

Edrychodd y wraig ar ei hŵyr a Randolph, gan ddweud, “Roedd fy nain wrth ei bodd yn helpu planhigion i dyfu. Pan oeddwn i'n blentyn, fe ddysgodd hi lawer o bethau i mi yn ei gardd. Yn yr ardd randir fechan hon, mae fy ŵyr a minnau'n gwneud hynny hefyd.”

Yna, rhoddodd y wraig ychydig o datws o sied yr ardd randir i Randolph. “Ewch â'r rhain yn ôl gyda chi,” dywedodd gyda gwên. Wrth roi'r anrheg yn ei fag, dywedodd Randolph ffarwel a mynd ymlaen ar ei daith.



Allwch chi helpu Randolph?

Cafodd Randolph Ddoeth lawer o roddion ar ei deithiau. Mae hefyd wedi nodi llawer o bethau yn ei lyfr nodiadau. Ond nid yw'r ymchwil wedi dod i ben eto. Mae lle yn ei fag o hyd i fwy o bethau er mwyn ei helpu i fyfrio ynghylch 'byw gyda natur' fel rhywbeth sydd wir yn bwysig.

Mae Randolph angen eich help chi.

Pa leoedd eraill y gallai Randolph ymweld â nhw er mwyn cael gwybod am fyw gyda natur?

Pwy y gallai eu holi yn y manau hynny?

Ydych chi'n meddwl bod byw gyda natur yn rhywbeth sydd wir yn bwysig?

Sut ydych chi'n byw gyda natur?

Pa rodd fydddech chi'n ei rhoi i Randolph fynd yn ôl gydag ef?



Randolph Ddoeth yn mynd yn ei ôl adref

Wrth i'r haul fachlud, aeth Randolph Ddoeth flinedig yn ei ôl i'w ystafell, lle y dadbaciodd ei fag yn ofalus. Fesul un, fe osododd o'i flaen yr *holl* bethau hynny yr oedd wedi'u casglu ar ei daith trwy Gymru.

Yna, eisteddodd Randolph Ddoeth ar ei gadair, gan grafu ei ben llwyd henaidd, a meddwl am y cwestiwn mawr iawn.

“Beth sydd *wir* yn bwysig?” gofynnodd eto mewn llais dwfn, trwm. Y tro hwn, fe gafodd ateb gan yr *holl* bethau yr oedd wedi'u casglu ar ei daith.

Gwrandawodd Randolph Ddoeth yn ofalus a gwenodd.

“Dyma ran hanfodol o fy ymchwil ysbrydol a fy chwiliad am ystyr!” dywedodd. “Mae pobl a natur wir angen ei gilydd mewn sawl ffordd. Mae byw gyda natur yn rhywbeth sydd *wir* yn bwysig.”







Llwybr Arfordir
Cymru


Fy anrheg i
Randalph


Darllen rhagor ...

Ymunwch â Randolph Ddoeth ar rai o'i deithiau eraill o amgylch Cymru.

Cyhoeddir pob llyfr stori yn Gymraeg ac yn Saesneg. Mae copïau mynediad agored ar gael ar wefan 'Hwb' Llywodraeth Cymru (hwb.gov.wales) ac ar Wefan Canolfan y Santes Fair (st-marys-centre.org.uk). Darperir canllawiau i athrawon, ffilmiau a cherddoriaeth hefyd.







Mae Randalph Ddoeth yn chwilio am atebion i'r cwestiwn mawr iawn. Mae eisiau gwybod, 'Beth sydd *wir* yn bwysig?' Mae'r cwestiwn hwn yn mynd â Randalph ar siwrnai drwy Gymru. Ar ei deithiau, mae'n dod o hyd i rai lleoedd a phobl arbennig i'w helpu gyda'i ymchwil.

Yn y stori hon, mae Randalph yn canfod gardd fotaneg ger Afon Menai yng Ngogledd Cymru. Yma, mae'n dysgu bod *Byw gyda Natur* yn rhywbeth sydd wir yn bwysig. Mae ymweliad â mynwent Gristnogol, ac â gardd randir Sikh, yn gwneud i Randalph feddwl hyd yn oed yn ddyfnach am yr hyn y gall *Byw gyda Natur* ei olygu.

Ydych chi'n barod i ymuno â Randalph yn ei ymchwil ysbrydol a'i chwiliad am ystyr? Efallai y gallwch chi helpu Randalph gyda'r cwestiwn mawr iawn hefyd. Beth sydd *wir* yn bwysig?